

## BWEA Bwletin Ynni Adnewyddol Cymru Rhifyn 02 - Ionawr 2007

### Y mae Adolygiad Stern yn pwysleisio bod mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn fater o frys

Ar y 30ain o Hydref 2006, fe gyhoeddwyd Adolygiad Stern. Fe wnaeth yr adolygiad, a gynhaliwyd gan Syr Nicholas Stern, Pennaeth Gwasanaeth Economaidd y Llywodraeth a chyn-Brif Economegydd Banc y Byd, ymgasglu, ymysg pethau eraill:

- Fe erys amser o hyd i osgoi effeithiau gwaethaf y newid yn yr hinsawdd, os cymerwn gamau gweithredu cadarn.
- Y mae'r gost o weithredu yn awr yn llawer llai na'r effaith economaidd bosibl o 'busnes fel arfer'.
- Y mae yna ystod o ddewisiadau yn bodoli i leihau gollyngiadau nwyon i'r awyr; y mae angen camau polisi bwriadol, cadarn i gymhell pobl i'w derbyn.

Y mae BWEA yn cytuno gyda chasgliadau Syr Nicholas. Ynni adnewyddol yw un o'r ychydig ddewisiadau o ran cyflenwi a all wneud gwahaniaeth mawr i ostwng gollyngiadau carbon yn y tymor byr.

### Cefnogaeth y Gymuned i Fferm Wynt Sir Gaerfyrddin

Y mae'r fferm wynt pum tyrbîn ym Mharc Cynog, uwchben Pentwyn yn sir Gaerfyrddin, wedi bod yn weithredol am dros bum mlynedd ac y mae'n parhau i gyflenwi trydan glân i mewn i'r system Gymreig. Fe wnaeth arolwg post o'r ardal ddangos fod gan y fferm wynt ganran boddhad ymysg y gymuned leol o 80%.

Y mae'r fferm wynt yn cynhyrchu 3.6 MW o drydan di-garbon sy'n ddigon i gyflenwi 2,250 o gartrefi lleol.

Y mae Diwrnodau Agored, er mwyn caniatáu i'r gymuned leol gael cyfle prin i fynd yn agos at y tyrbînau, wedi denu mwy na 250 o ymwelwyr ac y maent wedi cynorthwyo i feithrin yr ysbryd o gymdogrwydd da.



Mharc Cynog Fferm Wynt © Nuon UK Ltd


Y mae'r amaethwr sy'n eu cynnal, Iori Evans, a'r gweithredwr Nuon Renewables, yn croesawu ymweliadau addysgol a theithiau maes drwy drefniant. 'A wêl, a gred' yw hi i lawer o bobl na fyddent fel arall yn cael y cyfle i gadw oed gyda thyrbîn.

### Cynnydd tuag at dargedau TAN8

Y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod targedau pendant ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddol yng Nghymru erbyn y flwyddyn 2010, ac y mae Bwletin Ynni Cymru yn cadw golwg ar gynnydd. Nid oes yna MW ychwanegol wedi'i gynhyrchu gan bŵer gwynt ar y tir ers mis Mehefin 2006, sy'n golygu ein bod 69% yn hwyr yn ôl yr amserlen. A fydddech cystal â nodi mân gywiriad o'r mis diwethaf.

Os hoffech dderbyn copiau yn y dyfodol, ewch i [www.bwea.com/wales](http://www.bwea.com/wales) os gwelwch yn dda.

Ynni Gwynt ar y Tir – cynnydd tuag at darged TAN8, a fabwysiadwyd ym mis Gorffennaf, 2005



**Cysylltwch â** Llywelyn Rhys, Swyddog Cymru BWEA

t 07875 434 049

e [llywelyn@bwea.com](mailto:llywelyn@bwea.com)